Rhan 5.6 - Protocol ynghylch Cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion

CYFLWYNIAD

Mae'r Protocol hwn yn egluro sut y cyfathrebir ag Aelodau o'r Cyngor. Mae'n cwmpasu cyfathrebu rhwng yr Aelodau â'i gilydd a rhwng yr Aelodau a swyddogion y Cyngor.

Y bwriad yw nodi'n glir i'r Aelodau ac i swyddogion:

- Pa wybodaeth a ddarperir?
- Pa gymorth a roddir?
- Sut y rhoddir gwybodaeth a chymorth?
- Pwy sy'n gyfrifol am roi gwybodaeth a chymorth?

Mae'r Protocol yn clustnodi tri prif faes:

- **Darparu gwybodaeth**
- **Ymgynghori**
- **Gwasanaethau cymorth**

DARPARU GWYBODAETH

Mae Aelodau yn chwilio am wybodaeth yn y tri chategori bras canlynol:

- **Penderfyniadau Gweithredol**
- **Gwybodaeth Ward**
- **Gwybodaeth Gysylltu**
- **Newyddion y Cyngor**

PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Mae'r Aelodau am weld gwybodaeth am y penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol a'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol.

O dan y trefniadau gwleidyddol newydd, mae'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud penderfyniadau mewn dau fforwm – 1) Cyfarfodydd o'r Bwrdd Gweithredol, a 2) cyfarfodydd Gwneud Penderfyniadau ag Aelod o'r Bwrdd Gweithredol.

Bydd y Cyngor yn:
1) Cyhoeddi Agendâu'r Bwrdd Gweithredol o leiaf dri diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod

- Cyhoeddir copïau o Agendâu ar Fewnrwyd y Cyngor ac ar y Rhyngrwyd
- Anfonir Ebyst at yr Aelodau yn eu hysbysu bod yr Agendâu i'w gweld ar y Mewnrwyd
- Mae copïau caled ar gael ym mhob Ystafell yr Aelodau

- Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ar agor i'r cyhoedd a gall Aelodau fod yn bresennol fel sylwedyddion.

Mae hawl gan Aelodau weld papurau pwyllgorau cyhoeddus a gwybodaeth gefndir a glustnodir mewn adroddiad cyhoeddus i'r Cyngor, y Bwrdd Gweithredol neu i unrhyw bwyllgor.
Mae adroddiadau eithriedig yn cael eu cyfyngu i'r Aelodau o'r Pwyllgor sy'n ystyried yr adroddiad.

Yr Uned Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am gyhoeddi pob Agenda.
Cysyllter â: Colin Davies, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd drwy ffonio 01267 224029 est 4029

2) Cynhyrchu a Chyhoeddi pob Hysbysiad o Benderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol a'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol cyn pen tri diwrnod gwaith o'r cyfarfod.

- Cyhoeddir copïau o Hysbysiadau o Benderfyniadau ar Fewnrwyd y Cyngor ac ar y Rhyngrwyd
- Anfonir copïau o Hysbysiadau o Benderfyniadau at bob Aelod o'r Pwyllgor Craffu perthnasol, drwy'r e-bost, cyn pen tri diwrnod gwaith o'r cyfarfod.
- Mae cyfle gan aelodau'r Pwyllgor Craffu wedyn i "alw-i-mewn" unrhyw benderfyniad cyn pen tri diwrnod gwaith arall lle mae rheswm gwirioneddol a difrifol dros wneud hynny
- Cyhoeddir Hysbysiadau o Benderfyniadau wedyn ar y Fewnrwyd i bob Aelod gael golwg arnynt
- Mae copïau caled o'r Hysbysiadau o Benderfyniadau hefyd ar gael ym mhob Ystafell yr Aelodau.

Yr Uned Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am gyhoeddi pob Hysbysiad o Benderfyniadau.
Cysyllter â: Colin Davies, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ar 01267 224029 est 4029

3) Cyhoeddi Datganiadau i'r Wasg, sy'n ymwneud ag eitemau ar yr Agenda a Hysbysiadau o Benderfyniadau, cyn ac wedi'r cyfarfod perthnasol.

- Cyhoeddir pob datganiad i'r wasg yn unol â'r Protocol ar gyfer Delio â'r Wasg a'r Cyfryngau
- Cyhoeddir pob datganiad i'r wasg yn ddyddiol ar Fewnrwyd y Cyngor ac ar y Rhyngrwyd
- Yn anfon copi caled o'r Bwletin Newyddion Wythnosol 'O'r Wasg' at bob Aelod
- Yn anfon toriadau o'r papurau newydd at bob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, Arweinydd Grŵp, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, a gadael copi ym mhob Ystafell yr Aelodau

Yr Adain Gyfathrebu sy'n gyfrifol am gyhoeddi pob datganiad i'r wasg.

Cysyllter â: Debbie Williams, Rheolwr y Wasg Ar 01267 224037 Est 4037

4) Gall pob Aelod gael gwybodaeth hefyd drwy eu gwahanol Gyfarfodydd Grŵp, Pwyllgor Cyswllt â Llefarwyr yr Wrthblaid, a thrwy gysylltu ag Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn uniongyrchol.

GWYBODAETH WARD

Mae'r Aelodau am gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal.

Bydd y Cyngor:

1) yn rhoi gwybod i'r Aelodau drwy'r e-bost am y canlynol:
    - **Ceisiadau Cynllunio** – mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i roi gwybod i'r Aelodau am geisiadau cynllunio
    - **Cynlluniau cyfalaf newydd** – e.e. cynlluniau priffyrdd, datblygiadau neu adeiladau newydd
    - **Gwaith ar raddfa fawr ar eiddo neu gyfleusterau'r Cyngor** – e.e. cynlluniau atgyweirio tai, estyniadau i ysgolion
    - **Datblygiadau i'r gwasanaeth/lansio gwasanaethau neu fentrau newydd** – e.e. cynlluniau grant, mentrau amgylcheddol, prosiectau diogelwch ffyrdd, estyniadau i ysgolion
    - **Cau cyfleusterau neu atal gwasanaethau** – e.e. cau canolfan hamdden, ysgol neu gyfleuster gofal
    - **Newidiadau neu darfu ar ddarparu gwasanaeth** – e.e. cau ffordd, casglu sbwriel

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir pa wybodaeth y mae hawl gan Aelodau ei gweld. O dan y Ddeddf Diogelu Data cyfyngir ar yr hawl i weld gwybodaeth bersonol. I gael rhagor o fanylion gweler Atodiad Un.

Y Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr Aelodau yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwybodaeth Gysylltu

Mae'r Aelodau am gael system effeithiol o ddelio â'u hymholiadau/cwynion, ac maent am y manylion diweddaraf am sut i gysylltu â swyddogion allweddol.

Bydd y Cyngor:

1) Yn cyhoeddi rhestr o rifau ffôn swyddogion allweddol pob Adran. Cyhoeddir y wybodaeth hon ar gopi caled, a gaiff ei diweddaru bob chwarter, ac ar Fewnrwyd y Cyngor.
2) Yn gweithredu Gwasanaeth Ymholiadau'r Aelodau gyda Ffurflenni Ymholiadau ar gael ar y Fewnrwyd. Rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth ymateb i ymholiadau'r Aelodau cyn pen 10 diwrnod gwaith.

Yr Uned Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am Gymorth i'r Aelodau **Cysyllter â: Colin Davies, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ar 01267 224029 est 4029**

Newyddion y Cyngor
Mae'r Aelodau am dderbyn y wybodaeth a'r newyddion diweddaraf am y Cyngor a'i wasanaethau.

Bydd y Cyngor:

- Yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn unol â'r Protocol ar gyfer Delio â'r Wasg a'r Cyfryngau
- Yn cyhoeddi pob datganiad i'r wasg ar Fewnrwyd y Cyngor ac ar y Rhyngrwyd
- Yn anfon copi caled o'r Bwletin Newyddion Wythnosol 'O'r Wasg' at bob Aelod
- Yn anfon toriadau o'r papurau newydd at bob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, Arweinydd Grŵp, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, a gadael copi ym mhob Ystafell yr Aelodau

Yr Adain Gyfathrebu sy'n gyfrifol am gyhoeddi pob datganiad i'r wasg.

Cysyllter â: Debbie Williams, Rheolwr y Wasg drwy ffonio 01267 224037 Est 4037

1) Sicrhau bod crynodeb gweithredol ar gael o bob dogfen bolisi/strategaeth.

2) Sicrhau bod pob Ystafell yr Aelodau [Caerfyrddin, Neuadd y Dref Llanelli, Rhydaman a Llandeilo] â llyfrgell o wybodaeth y Cyngor a'r cyfle i ddefnyddio cyfrifiadur.

<u>Ymgynghori</u>
Mae'r Aelodau am gael y cyfle i fynegi eu barn am faterion sy'n effeithio ar eu ward.

Bydd y Cyngor:

- Yn ymgynghori â'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â'u ward cyn i'r mater fynd gerbron y Bwrdd Gweithredol/y Cyngor/Pwyllgor i benderfynu arno
- Yn ymgynghori â'r Aelodau drwy'r post neu'r e-bost gan ganiatáu pum niwrnod man lleiaf i'r Aelod hwnnw ymateb
- Bydd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys trosolwg byr/llythyr sy'n rhoi manylion am ddiben yr ymgynghori, crynodeb gweithredol o unrhyw ddogfennau perthnasol a manylion am lle i gael gafael ar ragor o wybodaeth
- Lle trefnir cyfarfodydd ymgynghori ar gyfer Aelodau, byddant yn derbyn hysbysiad dri diwrnod gwaith man lleiaf cyn y cyfarfod
- Bydd crynodeb o ymateb yr Aelodau yn cael ei gynnwys ar wyneb-ddalen yr adroddiad a ddosberthir gyda'r Agenda

2) Yn ymgynghori â'r aelodau drwy nifer o fforymau

- Mae Pwyllgorau Craffu – â rôl o ran datblygu polisi, a defnyddir hwy i ymgynghori ag Aelodau ar ddatblygiadau polisi a phenderfyniadau a ystyrir gan y Bwrdd Gweithredol/y Cyngor
- Mae Pwyllgorau Rhanbarthol – â rôl o ran datblygu polisi a'r goblygiadau i'r ardaloedd lleol, a defnyddir hwy i ymgynghori ag Aelodau
- Y Cyngor Sir – 'darlleniadau cyntaf' o bolisïau newydd yn y Cyngor Sir, a defnyddir hwy i ymgynghori ag Aelodau.
- Paneli Ymgynghorol – fforymau ydynt ar gyfer ymgynghori â'r Aelodau ar ddatblygu polisïau
- Lle trefnir cyfarfodydd penodol i ymgynghori â'r Aelodau, byddant yn derbyn hysbysiad dri diwrnod gwaith man lleiaf cyn y cyfarfod
- Bydd crynodeb o ymateb y Pwyllgorau yn cael ei gynnwys ar wyneb-ddalen yr adroddiad a ddosberthir gyda'r Agenda

Y Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gyfrifol am sicrhau yr ymgynghorir â'r Aelodau lleol ynglŷn â materion sy'n mynd i'r Bwrdd Gweithredol/Y Cyngor/Pwyllgor am benderfyniad.

Cymorth i'r Aelodau

- **Cymorth TG**
- **Gwasanaeth Post**
- **Dyddiadur y Cyngor**

Cymorth TG

Mae'r Aelodau am gael cymorth i ddefnyddio TG ac mae disgwyl i bob Aelod ddefnyddio'u cyfrifiaduron i gyrchu gwybodaeth.

Bydd y Cyngor:

- Yn rhoi Gwasanaeth Cymorth TG yn ystod oriau arferol y swyddfa rhwng 08:45 a 17:00 o ddydd Llun hyd ddydd Iau, 08:45 hyd 16:30 dydd Gwener, ac eithrio pob gŵyl banc a diwrnodau statudol ychwanegol.

- Yn rhoi cymorth y tu allan i'r oriau hyn ar gyfer mynediad i'r e-bost a'r Rhyngrwyd. Mae cymorth ar gael drwy gysylltu â'r Llinell Gofal drwy ffonio 01267 222288 rhwng 18:00 tan ganol nos o nos Lun hyd nos Wener; 08:00 hyd ganol nos ar y penwythnos. Ac eithrio pob gŵyl banc a diwrnodau statudol ychwanegol:

- Yn anelu at ddatrys pob problem dechnegol cyn pen 10 awr, a hefyd os oes angen, rhoi cymorth ar ôl 6pm, cyn belled â bod galwad wedi'i gwneud i'r Ddesg Gymorth y diwrnod hwnnw.

Y Gwasanaethau TG sy'n gyfrifol am gymorth TG.
Cysyllter â Desg Gymorth y Gwasanaethau TG drwy ffonio 01267 246789 est 6789

- Yn rhoi Hyfforddiant TG un-i-un i bob Aelod, gan fod yn rhagweithiol o ran annog Aelodau i fanteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael
- Rhoi cyfle i'r Aelodau fanteisio ar Hyfforddiant ECDL i ennill y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewrop.

Yr Is-adran Rheoli Pobl a Pherfformiad sy'n gyfrifol am hyfforddiant TG. Cysyllter â Caroline Blackburn drwy ffonio 01267 246171 est. 6171.

Gwasanaeth Post
Mae'r Aelodau am leihau maint y wybodaeth a anfonir atynt drwy'r post.

Bydd y Cyngor:

- Yn defnyddio'r e-bost fel prif gyfrwng cysylltu â'r Aelodau gan gynnwys anfon hysbysiadau am gyfarfodydd a phenderfyniadau
- Yn anfon copi caled i'r Aelodau o agendâu'r Pwyllgorau hynny y maent yn gwasanaethu arnynt
- Yn darparu twll colomen i bob Aelod yn Ystafell yr Aelodau yn Neuadd y Sir
- Yn anfon y post at yr Aelodau ddiwedd bob wythnos os na fyddant wedi'i gasglu o'u twll colomen

Dyddiadur y Cyngor
Mae'r Aelodau am i Ddyddiadur y Cyngor gael ei reoli er mwyn ceisio osgoi cynnal mwy nag un cyfarfod ar yr un pryd.

Bydd y Cyngor:

- Yn sicrhau bod pob cyfarfod sy'n ymwneud ag Aelodau yn cael eu cynnwys yn Nyddiadur y Cyngor
- Yn cyhoeddi Dyddiadur y Cyngor ar y Fewnrwyd ac ar y Rhyngrwyd
- Yn osgoi trefnu cyfarfodydd ar yr un diwrnod â'r Cyngor Sir, i ganiatáu i gyfarfodydd y Cyngor gario ymlaen i'r prynhawn

Yr Uned Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am reoli Dyddiadur y Cyngor.
Cysyllter â: Colin Davies, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd drwy ffonio 01267 224029 est 4029

Atodiad Un – Cyfyngu ar yr Hawl i Weld Gwybodaeth

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir pa wybodaeth y mae hawl gan Aelodau ei gweld:

> "Mae hawl gan Aelodau archwilio dogfennau'r Cyngor, i'r graddau y mae'n rhesymol bod angen iddynt weld y wybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n briodol fel aelodau o'r Cyngor. Cyfeirir at yr egwyddor hon fel arfer fel yr egwyddor "angen gwybod" …ond nid oes hawl gan aelod i chwilota'n ddirwystr drwy ddogfennau'r Cyngor. Nid yw cywreinrwydd ynddo'i hun yn ddigon o reswm i gael gweld gwybodaeth".

Y Cyfarwyddwr perthnasol a'r Swyddog Monitro sy'n penderfynu yn y lle cyntaf a oes "angen i'r aelod wybod" er mwyn iddo weld y wybodaeth. Os bydd anghydweld, gellir cyfeirio'r mater at yr Aelod(au) perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyfarwyddwr, a chael cyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro.

Nid oes hawl gan Aelodau weld gwybodaeth bersonol na chyfrinachol sy'n ymwneud ag un o'r trigolion neu fusnes. Yn yr amgylchiadau hyn, diogelir unigolion gan y Ddeddf Diogelu Data.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am hawliau Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor oddi wrth y Swyddog Monitro, Lyn Thomas ar 01267 224010 est 4010.